Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deunyddiau enghreifftiol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Trosolwg o'r canllawiau ychwanegol

# Deunyddiau enghreifftiol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

## Trosolwg o'r canllawiau ychwanegol

**Cynulleidfa**

Penaethiaid cynradd ac uwchradd a phenaethiaid adran ysgolion a gynhelir; cydlynwyr asesu uwchradd ac athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3; cyrff llywodraethu ysgolion prif ffrwd; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; ac eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

**Trosolwg**

Mae'r deunyddiau yn cynnwys enghreifftiau o waith dysgwyr gyda sylwebaeth ysgrifenedig sy'n enghreifftio'r safonau a amlinellir yn nisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Maent yn dangos sut i ddefnyddio'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ac yn rhoi cyfiawnhad ac esboniad dros y lefel a ddyfernir.

**Camau i'w cymryd**

Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:
Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-mail: asesu@llyw.cymru

**Additional copies**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

*Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2016); *English: Guidance for Key Stages 2 and 3* (Saesneg yn unig) (2009); *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2016); *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2009); *Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2015); *Cymraeg ail iaith: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2009); *Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2016); *Mathemateg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2009); *Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Gwyddoniaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2009); *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008); *Manteisio i'r eithaf ar asesu 7–14* (2010)

Mae'r gyfres hon yn cynnwys dogfen Lefel 4, dogfen Lefel 5 a dogfen Lefel 6 ar gyfer pob un o'r pynciau Cymraeg, Saesneg, Cymraeg ail iaith, mathemateg a gwyddoniaeth.

© Hawlfraint y Goron Hydref 2017 WG32489 ISBN digidol 978 1 78859 274 1

# Cynnwys

**Rhagair** **3**
**Cyflwyniad** **4**
**Adborth ymarferwyr/sicrhau ansawdd** **4**
**Pynciau unigol** **5**
Cymraeg 5
Saesneg 5
Cymraeg ail iaith 5
Mathemateg 6
Gwyddoniaeth 6

# Rhagair

Ym Mawrth 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen ddilysu allanol genedlaethol, yn dechrau ym Mehefin 2015, i ddiogelu asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. O ganlyniad i'r rhaglen hon cytunwyd y byddai athrawon yn elwa ar gael deunyddiau enghreifftiol ychwanegol i helpu athrawon i asesu.

Gwnaed rhan gyntaf y gwaith hwn gan y pedwar consortia rhanbarthol ac roedd yn cynnwys paratoi proffiliau dysgwyr a sylwadau ategol gan athrawon, ar gyfer y pynciau Cymraeg, Saesneg, Cymraeg ail iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae proffil dysgwr fel arfer yn cynnwys gwaith un dysgwr ar draws gofynion y pwnc ac yn cynnig digon o dystiolaeth i alluogi penderfyniad ynghylch pa lefel sy'n cyd-fynd orau â'r safon a gynrychiolir yn y proffil. Dylai'r proffil dysgwr fod yr un mor glir â llyfr neu lyfrau'r dysgwr sy'n cynnig tystiolaeth o nodweddion lefelau a tharged(au) cyrhaeddiad perthnasol.

Roedd ail ran y rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu portffolios pwnc. Mae'r rhain yn wahanol i broffil dysgwr gan eu bod yn cynnwys gwaith gan nifer o wahanol ddysgwyr, er mwyn dangos ystod a safon y gwaith a ddisgwylir ar bob lefel yn y pwnc, a nodweddion gwaith a ddisgwylir ar bob lefel.

Mae'n bosibl bod rhai ysgolion eisoes wedi datblygu eu portffolios pwnc trwy gasglu enghreifftiau o waith sy'n dangos un neu fwy o nodweddion lefel mewn pynciau penodol. Gall y portffolios pwnc a gynhyrchir yn genedlaethol gyd-fynd neu gael eu cynnwys yn rhan o bortffolios pwnc ysgolion. Gall ysgolion ddefnyddio portffolios pwnc mewn gwahanol ffyrdd a gall pob ysgol unigol ddewis eu ffurf, cynnwys a'u defnyddiau.

# Cyflwyniad

Nod y portffolios pwnc hyn a gynhyrchir yn genedlaethol yw helpu ysgolion ac athrawon wrth wneud dyfarniadau asesu ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd angen i athrawon benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n cyd-fynd orau â chyrhaeddiad dysgwr er mwyn gwneud barn cytbwys sy'n:

- seiliedig ar wybodaeth am y modd y mae dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu yng ngwaith dysgwr
- cael ei wirio yn erbyn disgrifiadau lefel cyfagos i sicrhau mai dyma'r barn sy'n cyd-fynd orau â'r dysgwr.

Diben darparu portffolios pwnc, gan roi enghreifftiau o safonau ar Lefelau 4, 5, a 6 yw hybu asesiadau dilys, dibynadwy a chyson o waith dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 ar draws Cymru. Nid yw'r deunyddiau sy'n cael eu darparu ar gyfer bob pwnc yn union yr un fath o ran fformat, ac mae gwahaniaethau sy'n adlewyrchu gofynion rhaglen astudio'r pwnc. Hefyd, nid ydynt yn cyfieithiadau uniongyrchol. Mae'r deunyddiau'n enghreifftiau o waith dilys a gasglwyd gan gydweithwyr gwella ysgolion y consortia rhanbarthol, gan ysgolion ar draws Cymru. Cafwyd y recordiadau fideo a sain gan ysgolion ac ni fwriedir iddynt fod o safon stiwdio. Yn yr un modd, bydd enghreifftiau o waith yn cynnwys gwallau sy'n adlewyrchu'r lefel enghreifftiol a bydd rhai gwallau heb eu huwcholeuo gan athrawon os nad yw'r marcio'n canolbwyntio ar yr agwedd honno.

Mae'r deunyddiau'n cynnwys enghreifftiau o waith dysgwyr (gan gynnwys copi printiedig, sain a fideo) a sylwadau ysgrifenedig, sy'n cyfiawnhau ac yn esbonio'r lefel a ddyfarnwyd. Mae cynulleidfa'r gwaith hwn yn cynnwys athrawon sy'n gweithio gyda Chyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r rhai sy'n gweithio o fewn ysgol i safoni a dilysu dyfarniadau.

# Adborth ymarferwyr/sicrhau ansawdd

Cyflwynwyd drafftiau terfynol yr holl ddeunyddiau enghreifftiol a nodiadau ategol i gynrychiolwyr o ysgolion drwy Gymru. Roedd eu hadborth yn werthfawr iawn i gyfrannu ymhellach at y deunyddiau a chadarnhau bod yr enghreifftiau'n addas a pherthnasol.

# Pynciau unigol

## Cymraeg

Er hwylustod, trefnir y deunyddiau portffolio pwnc Cymraeg fesul lefel (Lefelau 4, 5 a 6) ac wedyn gan darged cyrhaeddiad o fewn pob lefel (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu).

Mae'r enghreifftiau llafaredd yn cynnwys tystiolaeth clywedol neu weledol ynghyd â thrawsgrifiad o'r dystiolaeth. Mae'r enghreifftiau darllen yn cynnwys y testun darllen dan sylw yn ôl yr angen, tystiolaeth ysgrifenedig, clywedol neu weledol yn ôl yr angen ynghyd â thrawsgrifiad o'r dystiolaeth. Mae'r enghreifftiau ysgrifennu yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig mewn llawysgrifen a theip. Mae sylwadau'r athrawon, lle bo'n briodol, wedi eu cynnwys ar/yn y dystiolaeth. Mae taflen sylwadau i gyd-fynd â phob enghraifft o dystiolaeth llafar, darllen neu ysgrifennu. Mae'r daflen sylwadau yn nodi'r sgiliau a asesir, yn crynhoi'r cyd-destun, yn nodi sylwadau sy'n cydnabod nodweddion y lefel a ddangosir gan y gwaith ac yn awgrymu camau nesaf.

## Saesneg

Mae'r portffolio pwnc ar gyfer Saesneg wedi'i rannu'n gyntaf fesul lefel (Lefelau 4, 5 a 6) ac yna fesul targed cyrhaeddiad o fewn pob lefel (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu). Mae'r portffolio pwnc yn ceisio cynnig darnau o waith enghreifftiol sy'n dangos gofynion a nodweddion pob lefel. Nid proffiliau dysgwyr ydynt gan eu bod yn cynnwys darnau o waith gan nifer o wahanol ddysgwyr unigol.

Pwrpas y portffolios pwnc Saesneg yw adlewyrchu gofynion y Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg newydd, lle y bo'n bosibl, gan fodloni meini prawf asesu'r disgrifiadau lefel. Mae sylwadau i gyd-fynd â phob darn o waith sy'n gosod y dasg yn ei chyd-destun, yn asesu deilliannau'r dysgwr ac yn cynnig cyfarwyddyd ynglŷn â'r camau nesaf. Mae'r tasgau llafaredd yn cael eu henghreifftio gan glipiau sain/gweledol, nodiadau ysgrifenedig gan athrawon a nodiadau gan ddysgwyr – mae gan bob un sylwadau i gyd-fynd â nhw. Yn olaf, mae'r portffolio pwnc wedi'i gynllunio hefyd i gynnig enghraifft o 'osod tasg gyfoethog', lle y bo'n briodol – tasgau sydd â'r nod o asesu dau neu fwy o dargedau cyrhaeddiad yw'r rhain.

## Cymraeg ail iaith

Casglwyd deunyddiau gan nifer o wahanol ddysgwyr i ddangos nodweddion Lefelau 4, 5 a 6 mewn Cymraeg ail iaith. Cafwyd gwaith ar Lefel 4 o Gyfnod Allweddol 2 tra bod enghreifftiau o Lefelau 5 a 6 yn cynrychioli dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

Casglwyd nifer o dasgau ar gyfer y tri tharged cyrhaeddiad – Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Ar gyfer Llafaredd (pwysoliad o 70 y cant Cyfnod Allweddol 2 a phwysoliad o 60 y cant Cyfnod Allweddol 3), cafwyd tystiolaeth sylfaenol i gynnig enghreifftiau o dasgau unigol, pâr a/neu grŵp. Mae enghreifftiau ar gyfer darllen yn cynnwys tystiolaeth o ymateb i destunau llenyddol ac anllenyddol ac o ddarllen ar

goedd. Hefyd mae enghreifftiau o ymatebion llafar ac ysgrifenedig i ddarllen. Mae hyn yn cynrychioli integreiddio sgiliau iaith sy'n cael eu hybu drwy'r rhaglen astudio ac mae'n dangos tasgau a osodir o ansawdd da. Mae amryw o ffurfiau enghreifftiol ar gyfer ysgrifennu. Ar gyfer pob lefel cyrhaeddiad, rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys defnyddio iaith mewn nifer o sefyllfaoedd a chyd-destunau/themâu.

Os ceir enghreifftiau o nodweddion o lefel uwch neu is, tynnwyd sylw atynt, yn arbennig os ystyriwyd yn ofalus bod y dasg yn nodweddiadol o lefel arall.

## Mathemateg

Mae'r deunyddiau hyn yn cynrychioli gwaith a gasglwyd gan amryw o ddysgwyr. Mae'r portffolios mathemateg yn dangos dysgwyr yn cymhwyso sgiliau mewn ymchwiliadau a chyd-destunau bywyd go iawn, yn ogystal â thasgau byr ac ymarferion arwahanol sy'n nodweddiadol o ddysgwyr yn gweithio ar bob lefel (Lefelau 4, 5 a 6). Mae'r portffolio wedi'i drefnu'n fras fesul llinyn (Defnyddio sgiliau rhif, Defnyddio sgiliau mesur, Defnyddio sgiliau geometreg, Defnyddio sgiliau algebra a Defnyddio sgiliau data) gydag elfennau o'r llinyn Datblygu ymresymu rhifyddol wedi'i gynnwys o fewn gweithgareddau penodol. Er mwyn sicrhau cymharedd rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg, mae rhai enghreifftiau wedi'u haddasu o'r gwreiddiol.

Mae angen agweddau o ymresymu rhifyddol ym mhob maes o weithgaredd mathemategol, ond mae enghreifftiau penodol i'w gweld yn y tasgau cyfoethog. Mae sylwadau ar wahân ar gyfer pob un o'r rhain oherwydd eu bod yn dangos detholiad annibynnol a chymhwyso sgiliau a strategaethau. Mae'r tasgau'n darparu tystiolaeth gadarn o ddealltwriaeth dysgwyr, mewn gweithgareddau sy'n gofyn am fwy na chymhwyster gweithredol yn unig.

Mae enghreifftiau eraill o fewn y portffolios yn darparu tystiolaeth o sgiliau arwahanol ac maent mewn cod lliw i adlewyrchu'r canlynol.

- Anodiadau mewn blychau **glas** yw'r union ddatganiadau fel y ceir yn y disgrifiad lefel.
- Mae anodiadau mewn blychau **pinc** yn nodweddiadol o ofynion y lefel ond heb eu hysgrifennu'n benodol o fewn y disgrifiad lefel.
- Mae anodiadau mewn blychau **gwyrdd** yn amlygu sgiliau a fydd yn nodweddiadol o berfformiad ar y lefel uchod, pan fyddant wedi'u datblygu'n llawn.

## Gwyddoniaeth

Pan fo athrawon yn gwneud dyfarniadau crynodol mewn gwyddoniaeth, mae'r sgiliau gwyddonol yn cael eu rhannu'n 14 llinyn unigol sy'n cynnwys sgiliau cyfathrebu ac ymholiad, yn cynnwys cynllunio, datblygu a myfyrio. Cynlluniwyd y portffolio pwnc gwyddoniaeth hwn yn unol â'r safonau enghreifftiol ar gyfer pob un o'r 14 llinyn asesu gwyddoniaeth sydd ar gael yn *Llinynnau dilyniant o'r disgrifiadau lefel ar gyfer gwyddoniaeth Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140624-science-standards-of-progression-poster-cy.pdf).

Mae'r deunyddiau yma'n cynnwys amrywiaeth o ymchwiliadau llawn a rhannol, ochr yn ochr â sgiliau amharhaol y casglwyd tystiolaeth ohonynt, e.e. deialog rhwng dysgwr ac athro, graffiau unigol ac enghreifftiau o ganfyddiadau ymchwil dysgwyr. Wrth fynd ati i gynnig enghreifftiau o'r 14 llinyn, rydym wedi ceisio cynnwys nifer o fathau o ymholiad, e.e. prawf teg, dosbarthu ac adnabod, a defnyddio a chymhwyso modelau. Fodd bynnag, nid pwrpas y deunyddiau hyn yw cynnig enghreifftiau o bob math o ymholiad. Mae mwy o wybodaeth am fathau o ymholiad gwyddonol yn *Gwyddoniaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140624-science-in-the-national-curriculum-guidance-cy.pdf).

Mae'r deunyddiau hyn yn gasgliad o samplau gwaith gan wahanol ddysgwyr. Nid eu bwriad yw cyflwyno cynnydd cydlynol o waith un dysgwr. Fodd bynnag, defnyddir rhai o'r tasgau fel ffynhonnell ar gyfer gwahanol linynnau sgiliau. Mae hyn yn dangos sut y gellir defnyddio un dasg ymholiad i alluogi i athrawon ddatblygu sgiliau gwyddonol lluosog. Er ei fod yn effeithiol i addysgu sgiliau gwyddoniaeth yn arwahanol, bydd angen cyfleoedd ar ddysgwyr i ddwyn ynghyd y sgiliau hyn mewn ymchwiliadau llawn wrth iddynt weithio'n fwy annibynnol.